ATODLEN 4

Cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4

# RHAN 4

## Cyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau penodol

### PENNOD 2

Busnesau neu wasanaethau y mae'n ofynnol cau eu mangreoedd

**Cau busnesau a gwasanaethau**

**10.**—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a restrir ym mharagraffau 21 i 48—

(a) rhaid iddo gau i aelodau'r cyhoedd unrhyw fangre a weithredir fel rhan o'r busnes neu'r gwasanaeth, a

(b) ni chaiff gynnal y busnes neu'r gwasanaeth yn y fangre honno ac eithrio yn unol â'r paragraff hwn.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal—

(a) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan nad yw is-baragraff (1) yn gymwys i'r fangre mwyach;

(b) defnyddio mangre at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano neu'n ei awdurdodi;

(c) defnyddio mangre i ddarlledu heb gynulleidfa yn bresennol yn y fangre (pa un ai dros y rhyngrwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu) neu i ymarfer ar gyfer darllediad o'r fath;

(d) defnyddio mangre ar gyfer darparu nwyddau neu wasanaethau (gan gynnwys eu gwerthu, eu llogi, eu casglu neu eu danfon) mewn ymateb i archeb neu ymholiad a wneir—

(i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,

(ii) dros y ffôn, gan gynnwys drwy neges destun, neu

(iii) drwy'r post;

(e) defnyddio mangre ar gyfer darparu gwybodaeth—

(i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,

(ii) dros y ffôn, gan gynnwys drwy neges destun, neu

(iii) drwy'r post.

(3) Pan—

(a) bo'n ofynnol, yn rhinwedd y paragraff hwn, i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes ("busnes A") beidio â chynnal busnes A mewn mangre, a

(b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy ("busnes B"),

cydymffurfir â'r gofyniad yn y paragraff hwn os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A yn y fangre.